




Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

Gorffennaf 2019

PC 42: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partiön; a Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

Adolygiad o ddeddfwriaeth, polisi cenedlaethol a'r arferion gorau: polisi cynllunio ar y Gymraeg

Adolygiad a gynhaliwyd ar ran
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer
paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol Newydd
Gorffennaf 2019



Adolygiad o'r diweddariadau sydd eu hangen mewn polisi cynllunio ar y Gymraeg

Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn datblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer y cyfnod 2018-33.

Rhaid paratoi CDLlau yn unol â:

- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015;
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004;
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005;
- Polisi Cynllunio Cymru, yn enwedig Pennod 2 ar gynlluniau datblygu;
- y llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (2015).

Er 1988 (Cylchlythyr 53/88) mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol sydd i gael sylw wrth lunio polisiâu defnydd tir ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn Polisi Cynllunio Cymru (2002) ac mae cyngor technegol yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20.

Fel y nodwyd mewn canllawiau statudol cenedlaethol:

“Un o'r pynciau y bydd gofyn ei ystyried wrth baratoi CDLI yw sut y bydd y strategaeth a'r polisiâu'n debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau.”¹

Y mecanwaith ar gyfer dangos bod yr awdurdod wedi ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg yw'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG). Mae'r AoG yn rhan ofynnol o'r CDLI. O dan Adran 62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2014, mae'n ofynnol i'r AoG gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal.

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn paratoi ei Strategaeth a Ffeifir i'w chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r AoG yn rhan o'r broses hon ac mae angen iddo gynnwys asesiad o'r effeithiau ar y Gymraeg.

Mae gan awdurdod Conwy bolisi cynllunio ar y Gymraeg o'r enw Polisi CTH/5 a fydd yn pennu ei ddull o asesu effeithiau. Fodd bynnag, ers mabwysiadu'r polisi hwnnw cafwyd newidiadau a diweddariadau mewn deddfwriaeth, polisi cenedlaethol a lleol a chanllawiau statudol sy'n golygu bod angen diweddaru'r polisi cynllunio ar y Gymraeg.

Cefndir y gwaith

Comisiynwyd RHD Consultancy Cyf gan yr awdurdod i adolygu'r cyd-destun deddfwriaethol a chenedlaethol a darparu argymhellion ar gyfer polisi cynllunio diwygiedig ar y Gymraeg wrth baratoi at gam y Cynllun Adneuo.

Mae dau gam i'r gwaith: y cyntaf yw adolygu'r cyd-destun o ran deddfwriaeth a pholisi a darparu adroddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y newidiadau hyn, gan ddarparu argymhellion ar gyfer polisi cynllunio diwygiedig ar y Gymraeg. Dyma bwrpas y papur hwn. Yr ail gam fydd datblygu polisi cynllunio diwygiedig ar y Gymraeg wrth baratoi at gam y Cynllun Adneuo tua Rhagfyr 2019.

¹ TAN 20, Hydref 2017

Methodoleg

Cyflawnwyd y gwaith ar y cyd-destun cenedlaethol o ran deddfwriaeth a pholisi (Cam 1) rhwng Mai a Gorffennaf 2019 er mwyn cyfrannu at y Strategaeth a Ffeirir a gyhoeddir ym mis Gorffennaf (sy'n cynnwys asesiad lefel uchel o effeithiau'r cynllun ar y Gymraeg).

Roedd sawl elfen ym methodoleg y rhaglen waith ac roedd yn gwneud defnydd o wahanol fathau o dystiolaeth ystadegol a thystiolaeth ddogfennol ehangach. Roedd tair prif ran i'r gwaith:

1. Ymchwil a dadansoddi wrth ddesg:
 - i. Adolygu deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol – ar gynllunio ac ar y Gymraeg – Polisi Cynllunio Cymru, TAN 20, TAN 6, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cymraeg 2050, Safonau'r Gymraeg (ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy).
 - ii. Dadansoddi dogfennau – Strategaeth a Ffeirir (drafft i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019), Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005), PC07 Papur Cyflenwad Tir ar gyfer Tai, strategaeth Conwy ar hybu'r Gymraeg, dadansoddiad Uned Ymchwil Conwy, Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg, Cynllun Llesiant.
 - iii. Dadansoddi ystadegau – Cyfrifiad 2011, adroddiad yr Uned Ymchwil ar y Gymraeg, Arolwg Comisiynydd y Gymraeg o'r Defnydd o Iaith, Bwletin Ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, bwletin Stats Cymru ar y Gymraeg, adroddiadau tai, adroddiad ar ddata cyflogaeth, ardaloedd difreintiedig yng Nghymru, adroddiadau teithio i'r gwaith, data am y galw am ysgolion cyfrwng Gymraeg.
 - iv. Arolwg llenyddiaeth – darllen ehangach ar y Gymraeg a hunaniaeth, naws am le a chreu lleoedd, bröydd Cymraeg, a chymunedau a sefydliadau Cymraeg.
2. Adolygu a mapio polisi cynllunio presennol ar y Gymraeg ar sail canfyddiadau'r ymchwil ddesg:
 - v. Mapio polisi cynllunio presennol ar y Gymraeg ar sail canfyddiadau'r ymchwil uchod.
 - vi. Anodi'r polisi presennol ag argymhellion i'w hystyried yn gynnar.
3. Profi a chymhwyso'r argymhellion at y Strategaeth a Ffeirir:
 - vii. Nodi'r safleoedd ieithyddol sensitif (ar sail data'r Cyfrifiad a throthwyon o'r arolwg llenyddiaeth) a safleoedd eraill sy'n strategol bwysig.
 - viii. Asesu'r pum safle a ddyrannwyd yn y Strategaeth a Ffeirir ar sail y meini prawf sydd wedi'u hargymhell a'r safleoedd ieithyddol sensitif a nodwyd uchod i roi prawf ar yr argymhellion yn y papur.

Mae'r papur hwn wedi'i gyflwyno i gymheiriaid cynllunio yn awdurdod Conwy i'w ystyried ac i gyfrannu i'r broses cynllunio cyn cyhoeddi'r Strategaeth a Ffeirir a hyd at gam y Cynllun Adneuo, pryd y mae'n fwyaf tebygol y bydd angen gwneud asesiadau o effeithiau unigol.

Bydd polisi cynllunio clir a chadarn ar y Gymraeg yn ategu proses llunio'r cynllun ac yn sicrhau bod yr awdurdod yn gweithredu'n unol â deddfwriaeth a pholisi a'i fod hefyd yn ceisio dilyn yr arferion gorau.

Strwythur yr Adroddiad

Mae tair rhan i'r Adroddiad. Mae Rhan 1 yn disgrifio'r cyd-destun o ran deddfwriaeth a pholisi a'r diweddariadau a gafwyd iddynt ers mabwysiadu'r CDLI diwethaf. Mae Rhan 2 yn amlinellu'r diweddariadau a'r datblygiadau o ran deddfwriaeth, polisi a chanllawiau cynllunio ers mabwysiadu'r CDLI diwethaf – yn cynnwys Creu Lleoedd – a diweddariad o TAN 20 ar y Gymraeg.

Wedyn mae Rhan 3 o'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith ac yn cyflwyno argymhellion. Mae rhestr yn y rhan hon o ardaloedd ieithyddol sensitif arfaethedig ac ardaloedd eraill o bwys arwyddocaol i'r Gymraeg.

Mae un o'r pedwar argymhelliad yn darparu cyngor ar adolygu'r polisi cynllunio ar y Gymraeg. Bydd angen ystyried hyn dros y misoedd nesaf a chyhoeddir diweddariad o'r polisi yn unol â chanfyddiadau'r adroddiad hwn gyda'r Cynllun Adneuo tua Rhagfyr 2019.

Mae atodiadau i'r adroddiad hwn, yn cynnwys rhestr termau a llyfryddiaeth.

Rhan 1: Diweddariad ar y Cyd-destun Polisi a Deddfwriaeth Cenedlaethol

Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae Adran 70(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn egluro bod rhaid rhoi sylw i ystyriaethau o ran y defnydd o'r Gymraeg wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio, i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r cais. Gall hyn fod yn gymwys i unrhyw gais mewn unrhyw ran o Gymru. Mae'r ddarpariaeth hon yn golygu bod y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol ond nid yw'n rhoi mwy o bwys i'r Gymraeg nag i unrhyw ystyriaeth berthnasol arall.

Mae'r system gynllunio yn gweithredu'n unol â darpariaethau cynllunio gwlad a thref a deddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd arall. Mewn perthynas â'r Gymraeg a chynllunio, bydd Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 yn berthnasol a dylai penderfynwyr fod yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol ehangach.

Rhaid i bolisiau'r CDLI beidio â cheisio cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Rhaid i bolisiau cynllunio beidio â cheisio rheoli meddiannaeth tai ar sail ieithyddol.

Cyflwynwyd dwy ddeddf bwysig ers hynny ac ers mabwysiadu CDLI diwethaf Conwy, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae eglurhad o'r ddwy yn yr adrannau isod.


Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cynnwys saith nod llesiant y mae'n rhaid i awdurdodau lleol geisio eu cyflawni er mwyn gwella llesiant yn awr ac yn y dyfodol.

Un o'r nodau llesiant yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn flynnu.

Mae saith nod llesiant yn y Ddeddf sydd wedi'u dangos yn Ffigur 1 isod.

Ffigur 1 – Y Saith Nod Llesiant



Er mwyn dangos bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i'r nodau Llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses penderfynu, mae gofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r 'pum ffordd o weithio' sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r rhain yn galw am ystyried: cynnwys; cydweithio; integreiddio; atal; a ffactorau hirdymor.

Ffigur 2: Y Pum Ffordd o Weithio



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi cyrff cyhoeddus o dan ddyletswydd i gyflawni datblygu cynaliadwy. Nid yw hwn yn gysyniad newydd ar gyfer y system gynllunio gan fod egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi bod wrth wraidd polisi cynllunio ers cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru gyntaf yn 2002. Fodd bynnag, mae'r cysyniad wedi'i helaethu o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae'n galw am wella'r ffordd o gyflawni pob un o'r pedair agwedd ar lesiant: cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol².

Mae'r system gynllunio yn hanfodol ar gyfer sicrhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n darparu'r fframwaith polisi a deddfwriaethol i reoli'r ffordd o ddefnyddio a datblygu tir er budd y cyhoedd fel y bydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni'r nodau llesiant.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 hefyd wedi'i gyflwyno ers mabwysiadu'r CDLI diwethaf ac wedi creu fframwaith deddfwriaethol newydd a oedd yn cynnwys creu swydd Comisiynydd y Gymraeg, Tribiwnlys y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg.

Mae'r datblygiad diweddaraf hwn mewn deddfwriaeth yn bwysig gan ei fod yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol. Mae hefyd yn bwysig am ei fod yn datgan nad yw'r Gymraeg i'w thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn wahanol i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae hyn yn golygu bod gofyn i'r awdurdod lleol hyrwyddo a hybu'r Gymraeg yn rhagweithiol.

Rhaid i awdurdod lleol Conwy a'r holl awdurdodau lleol gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar awdurdod Conwy gan Gomisiynydd y Gymraeg i'w gweld [yma](#).

² Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 (2018) <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu na chaiff y Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a bod rhaid iddo hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn bywyd pob dydd).

Nod y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ynghylch eu dyletswyddau o ran y Gymraeg;
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg;
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu safon.

Mae Safonau'r Gymraeg wedi disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a gymeradwywyd gyntaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 23 Gorffennaf 1997, ac a adolygwyd ar 14 Mai 2004 ac wedyn ar 23 Ebrill 2009.

Y safonau sydd fwyaf cymwysadwy i broses llunio'r cynllun yw Safonau 89-93 sydd wedi'u dangos yn Atodiad 1. Yn fyr, y gofynion allweddol yw'r canlynol:

1. rhaid i chi ystyried pa effeithiau (boed gadarnhaol neu niweidiol) a gaiff penderfyniadau ar - (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
2. rhaid i chi ystyried sut y gellid llunio'r polisi fel y bydd
 - a. yn cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol mwy,
 - b. ac yn peidio â chael effeithiau niweidiol

ar - (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
3. pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen gynnwys a gofyn barn am yr effeithiau y mae'r penderfyniad polisi hwnnw'n debygol o'u cael ar - (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Strategaeth genedlaethol y Gymraeg – Cymraeg 2050³

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gosod targed cenedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae hyn wedi'i amlinellu yn y strategaeth genedlaethol ar gyfer y Gymraeg, [Cymraeg 2050](#). Mae'r Llywodraeth wedi datgan y bydd angen cyrraedd sefyllfa yng Nghymru lle mae'r Gymraeg yn elfen gwbl naturiol ym mhob agwedd ar fywyd pob dydd. Os ydym am gyflawni hynny, rhaid i'r genedl gyfan fod yn rhan o'r drafodaeth – siaradwyr Cymraeg rhugl, siaradwyr Cymraeg sy'n amharod i ddefnyddio'r iaith, siaradwyr newydd sydd wedi dysgu'r iaith, a phobl nad ydynt yn eu cyfrif eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

Ar hyn o bryd, mae 19% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, yn ôl Cyfrifiad 2011, sy'n cyfateb i 562,000 o bobl – felly ychydig mwy na hanner miliwn ar hyn o bryd. Hefyd mae nifer sylweddol o bobl sydd â rhywfaint o wybodaeth o'r iaith sydd heb eu cynnwys yn y ffigur uchod. Mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu'n helaeth mewn ysgolion ledled Cymru, ac nid yn unig yn yr ysgolion hynny lle mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng addysgu gan ei bod yn bwnc gorfodol yn y cwricwlwm cenedlaethol.

Tra oedd bron 50 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg ym 1901, roedd y ganran hon wedi gostwng i lai na 19 y cant ym 1991. Er hynny, roedd nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu ychydig i bron 21% yn 2001 – y cynnydd cyntaf ers 100 mlynedd.

³ Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>

Fodd bynnag, yng Nghyfrifiad 2011 roedd y ffigur wedi dychwelyd i 19% ac, o ganlyniad, lluniwyd strategaeth genedlaethol newydd gan Lywodraeth Cymru – Cymraeg 2050⁴, a oedd yn gosod targed i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

“Rhoddodd canlyniadau Cyfrifiad 2011 gyfle i ni gael trafodaethau agored ac ailasesu pa ddyfodol y dymunwn ei weld i'r iaith. Mae angen i bethau newid. Mae angen i ni ddod o hyd i egni newydd, cynllunio mewn modd systematig a gwella sut rydym yn cydweithredu er mwyn sicrhau etifeddiaeth haeddiannol i'n hiaith.”

Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod tair thema:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Ffigur 3: Cymraeg 2050 – y tair thema strategol.

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
2. Y blynyddoedd cynnar
3. Addysg statudol
4. Addysg ôl-orfodol
5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

6. Y gweithle
7. Gwasanaethau
8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

9. Cymuned a'r economi
10. Diwylliant a'r cyfryngau
11. Cymru a'r byd ehangach
12. Technoleg ddigidol
13. Seilwaith ieithyddol
14. Cynllunio ieithyddol
15. Gwerthuso ac ymchwil

⁴ Cymraeg 2050 (Llywodraeth Cymru) <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>

Roedd nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy wedi gostwng rhwng 2001 a 2011 ac mae hon yn duedd sydd wedi parhau dros y degawdau diwethaf.

Rhwng 2001 a 2011 gostyngodd nifer y siaradwyr yn y Fwrdeistref Sirol o 31,050 i 30,600 – gostyngiad o 450 neu -6.2%. Fel cyfran, roedd hwn yn ostyngiad o 29.2% o'r boblogaeth 3+ oed yn 2001 i 27.4% yn 2011. Mae'r gostyngiad hwn wedi para'n ddi-dor yn y pedwar Cyfrifiad diwethaf.

Tabl 1: Siaradwyr Cymraeg 1981 i 2011

	Bwrdeistref Sirol Conwy		Cymru	
	Nifer	%	Nifer	%
Cyfrifiad 2011	30,600	27.4%	562,016	19.0%
Cyfrifiad 2001	31,042	29.2%	575,640	20.5%
Cyfrifiad 1991	31,431	30.6%	508,098	18.7%
Cyfrifiad 1981	30,276	32.7%	508,207	19.0%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau 2001 a 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Fodd bynnag, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng yn ogystal â'r ganran. Rhwng 2001 a 2011, gostyngodd nifer y siaradwyr Cymraeg o 31,298 i 30,600. Mae hyn yn bwysig iawn o'i ystyried yng nghyd-destun y cynnydd cyffredinol ym mhoblogaeth Conwy dros yr un cyfnod o 10 mlynedd – o 106,316 i 111,724. Felly, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng, tra bo nifer y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cynyddu. Cafwyd colled net yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy fel y mae'r tabl isod yn dangos.

Tabl 2: Gostyngiad yn nifer a chanran y rheini sy'n gallu siarad Cymraeg, 2001-2011

2001				2011			
Yn gallu siarad Cymraeg	Heb allu siarad Cymraeg	Cyfanswm	%	Yn gallu siarad Cymraeg	Heb allu siarad Cymraeg	Cyfanswm	%
31,298	75,018	106,316	29.4%	30,600	81,124	111,724	27.39%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau 2001 a 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Er hynny, ni chafwyd gostyngiad o ran y gallu i siarad Cymraeg ym mhob ardal yng Nghonwy. Rhwng 2001 a 2011 cafwyd cynnydd cyffredinol yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth mewn pedair adran etholiadol – Penrhyn (Llandudno), Bae Cinmel, Llandrillo yn Rhos ac Eglwys-bach. Mewn 11 o adrannau etholiadol ychwanegol gwelwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, er bod cyfran y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng.

Mewn rhai cymunedau, mae cyfran y siaradwyr Cymraeg cyn uchod ag 88%, ac mewn eraill mae cyn ised â 6%. Mae tua 89% o'r rheini sy'n gallu siarad Cymraeg wedi'u geni yng Nghymru. Mae nifer mawr o'r rheini sydd wedi symud i Gymru wedi parchu a chefnogi'r iaith. Mae rhai hefyd wedi dysgu'r iaith a thrwy wneud hynny wedi cyfrannu at lwyddiant parhaus yr iaith yn eu priod gymunedau.

Mae'r gostyngiad hwn yn nifer a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg drwy gydol yr ugeinfed ganrif wedi arwain at ddarnio'r bröydd Cymraeg. Ym 1961, cofnodwyd bod 279 o gymunedau yng Nghymru (o gyfanswm o 993) lle'r oedd o leiaf 80% o'r gymuned yn gallu siarad Cymraeg. Erbyn 2001, roedd hyn yn wir am ddim ond 20 o adrannau etholiadol er bod 37 ychwanegol lle'r oedd mwy na 70% yn gallu siarad Cymraeg. Er bod nifer yr ardaloedd creiddiol hyn wedi gostwng, ceir ardaloedd Cymraeg creiddiol o hyd lle mae'r iaith (a'i diwylliant) yn fywiog ac yn cael ei siarad mewn gweithgareddau cymdeithasol, hamdden a busnes a heb fod wedi'i chyfyngu i'r cartref neu'r ysgol.

Yn yr ardaloedd hyn, mae'r Gymraeg yn iaith fyw, bob dydd sy'n cael ei siarad, ei chlywed a'i gweld yn y gymuned; mae'n rhan o wead y gymuned.

Mae 'Dyfodol Dwyieithog/A Bilingual Future' (2002) yn cydnabod mai'r gostyngiad yn nifer y cymunedau lle siaredir y Gymraeg yn bennaf yw un o'r bygythiadau mwyaf i ddyfodol y Gymraeg. Er mwyn wynebu'r bygythiad hwn, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn argymhell creu cymunedau economaidd a chymdeithasol gynaliadwy a chefnogi polisïau a phenderfyniadau ar gynllunio a thai sy'n ystyriol o gymeriad ieithyddol y cymunedau.

Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae Caerdydd yn ardal lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu yn y cyfnod hyd at y Cyfrifiad diwethaf yn 2011.

Bydd ffyniant y Gymraeg yn y dyfodol yn dibynnu ar nifer o ffactorau gwahanol, fel addysg, y defnydd o'r Gymraeg mewn pob math o gyd-destun yn cynnwys gwaith a'r amgylchedd busnes, newid demograffig a symudiad y boblogaeth, a sylfaen economaidd gadarn a chymunedau bywiog, cynaliadwy.

Strategaeth Gymraeg Conwy

Mae awdurdod Conwy wedi paratoi ei strategaeth Gymraeg yn unol â gofynion ei Safonau Cymraeg. Yn y strategaeth hon, mae'n gosod targedau ar gyfer canran y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol. Uchelgais yr awdurdod ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw atal y gostyngiad a chynyddu nifer i siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy. O ganlyniad i hyn, mae'r awdurdod wedi gosod targed ar gyfer cynnydd o 2% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy dros y pum mlynedd nesaf, gyda'r bwriad o ystyried gosod targed tymor hwy i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg dros y 15 mlynedd nesaf.

Rhan 2 – Arolwg o Bolisi Cynllunio Cenedlaethol

Cyflwyniad

Ers 1988 (Cylchlythyr 53/88) mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol sydd i gael sylw wrth lunio polisiau defnydd tir ac wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn Polisi Cynllunio Cymru (2002) ac mae cyngor technegol yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20.

Cipolwg ar y dogfennau allweddol:

Mae Deddf yr Amgylchedd 2016 yn darparu'r ddeddfwriaeth ar gyfer cynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru. Mae'n cynnwys dyletswydd bioamrywiaeth gryfach sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth a chryfhau ecosystemau.

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) 2018 (PCC) yw polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru i Gymru a dylid ei ystyried wrth baratoi cynlluniau datblygu.

Mae Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau yn darparu canllawiau technegol i ategu hyn. Ceir canllawiau ar weithdrefnau hefyd yng Nghylchlythyrau Llywodraeth Cymru. Mae TAN 20 yn ymwneud â'r Gymraeg, yn cynnwys arwyddion, ac mae TAN 6 hefyd yn bwysig iawn o ran y Gymraeg ac mae TAN 20 yn cyfeirio ato.

Polisi Cynllunio Cymru

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn amlinellu polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Prif amcan PCC yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â gofynion Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall.

Mae PCC yn cael ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs), Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, a llythyrau sy'n egluro polisi sydd, ynghyd â PCC, yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol i Gymru.

Nod Polisi Cynllunio Cymru (PCC)⁵ a ddiweddarwyd yn 2018 yw gwireddu'r weledigaeth o Gymru a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, sy'n cefnogi ecosystemau iach gweithredol ac sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae PCC yn ymgorffori ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ein symud tuag at gymdeithas gydnerth, garbon isel, darparu swyddi diogel sy'n talu'n dda, a chreu amgylcheddau sydd â chysylltiadau da i bawb yng Nghymru sy'n gwella ein bywydau a'n hiechyd ac yn gwella ein llesiant.

Mae PCC yn helpu i integreiddio gwasanaethau, sefydlu cydlyniant cymdeithasol, a sicrhau bod safleoedd tai newydd yn sicrhau cydraddoldeb, y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn.

Mae hefyd yn cyfleu neges glir ein bod yn cynllunio ar gyfer ardaloedd trefol a chymunedau gwledig cydnerth yn y dyfodol, yn croesawu technoleg ac arloesi, yn cynnwys gweithio clyfar, sydd hefyd yn rhag-weld cynnydd i sicrhau bod Cymru ar y blaen o ran cynllunio.

⁵ Polisi Cynllunio Cymru, 2018 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

Y pum egwyddor gynllunio lefel uchel sydd wedi'u hamlinellu yn PCC yw:

1. Tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy – sicrhau datblygu economaidd cynaliadwy i bob grŵp, yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr yr iaith yn eu cymunedau cynaliadwy a chydnerth
2. Gwneud y gorau o adnoddau – rhaid dilyn egwyddor agosatrydd i sicrhau bod problemau'n cael eu datrys yn lleol a bod pobl leol yn gysylltiedig â nhw a'u bod yn cael eu grymuso i gyfrannu at greu'r ateb, yn hytrach na'u pasio i leoedd eraill neu genedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod tir ac adnoddau eraill yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy yn y tymor hir a bod y Gymraeg yn tyfu'n iach.
3. Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach – darparu mynediad i bawb, yn cynnwys siaradwyr Cymraeg; sicrhau bod problemau'n cael eu deall a'u datrys ar y cyfle cyntaf drwy ymgysylltu effeithiol â'r rheini y mae'r datblygiad yn effeithio arnynt neu'n gysylltiedig â nhw.
4. Creu a chynnal cymunedau – mae ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg angen y cymysgedd priodol o gartrefi o ansawdd/dyluniad da, swyddi, gwasanaethau, seilwaith a chyfleusterau fel y byddant yn teimlo'n ddiogel a bodlon yn eu bywyd pob dydd.
5. Amddiffyn yr amgylchedd a chyfyngu'r effeithiau ar yr amgylchedd – rhaid gwarchod, hyrwyddo, cadw a gwella asedau naturiol, hanesyddol ac ieithyddol/diwylliannol.

Mae'r holl egwyddorion uchod yn berthnasol i'r un graddau i'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg – rhai trefol a gwledig. Maent yn ddefnyddiol fel sail i asesu effaith proses llunio'r cynllun ar y Gymraeg.

Creu Lleodd

Mae PCC yn datgan ei bod yn bwysig bod yr holl benderfyniadau datblygu, boed drwy'r dewis o bolisiau mewn cynlluniau datblygu neu benderfyniadau ar reoli datblygiadau unigol, yn ceisio cyfrannu at greu mannau cynaliadwy a gwella llesiant.

“Dylai pob penderfyniad datblygu, naill ai trwy ddewisiadau polisi mewn cynlluniau datblygu neu drwy benderfyniadau rheoli datblygu unigol, geisio cyfrannu at greu mannau cynaliadwy a gwella llesiant.”⁶

Dylai'r system gynllunio greu mannau cynaliadwy sy'n ddeniadol, yn gymdeithasol, yn hygyrch, yn actif, yn ddiogel, yn groesawgar, yn iach ac yn gyfeillgar. Dylai cynigion datblygu greu'r amodau i ddod â phobl ynghyd a'u gwneud eisiau byw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd lle mae ymdeimlad o le a llesiant gan greu ffyniant i bawb.

Er bod PCC yn datgan na fydd pob cynnig ar ddatblygu neu bolisi yn gallu dangos ei fod yn cwrdd â'r holl canlyniadau creu lleodd, nid yw hyn yn golygu na ddylid eu hystyried yn y broses rheoli datblygu i weld a ellir gwella neu ehangu'r cynnig i hyrwyddo llesiant ehangach. Mater i ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio yw adnabod y cyfleoedd hyn a gweithredu arnynt.

Un o'r Canlyniadau Creu Lleodd yw Creu a Chynnal Cymunedau: Galluogi'r Gymraeg i ffynnu.


⁶ PCC 2018 – Llywodraeth Cymru (2018) Polisi Cynllunio Cymru

Ffigur 5: Mae themâu PCC yn cyfrannu gyda'i gilydd at greu lleoedd



Mae'r Gymraeg wedi'i rhestru o dan Thema Dewisiadau Strategol a Gofodol yn y diagram yn Ffigur 5 yn PCC, sydd wedi'i ddangos uchod. Rhaid asesu pob penderfyniad cynllunio yn gyntaf ar sail y Dewisiadau Strategol a Gofodol, fel y mae'r diagram llif ar benderfynu yn dangos isod.

Diagram Llif Penderfynu (PCC 2018)



Creu Lleoedd a'r Gymraeg

Mae'r gwerth cynhenid sydd mewn lle i bobl a'u cymunedau yn bwysig iawn, ac yn gysylltiedig â ffactorau sy'n cynnwys iaith, diwylliant, hanes, treftadaeth a hunaniaethau. Mae'r ymdeimlad o le a pherthynas pobl a lleoedd yn

bwysig. Mae ymdeimlad o le yn gysylltiedig ag ymdeimlad o berthyn, ymdeimlad o hunaniaeth a phan fydd y rhain yn gadarn a chynaliadwy, byddant yn hybu iechyd a llesiant pobl⁷.

Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Conwy a Chymru a bydd ei llesiant yn y dyfodol yn dibynnu ar nifer o wahanol ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal mannau a chymunedau cynaliadwy ffyniannus. Dylai'r system cynllunio defnydd tir roi sylw i'r amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a chyfrannu, wrth wneud hynny, at y defnydd ohoni a'r nod llesiant ar gyfer 'Y Gymraeg yn Ffynnu'. Mae hyn wedi'i gyfleu'n glir yn PCC i'w ddilyn gan awdurdodau cynllunio.

Mae cymunedau bywiog a chynaliadwy yn hanfodol i PCC – polisi cynllunio cenedlaethol. Mae'n datgan y dylai cynigion datblygu greu'r amodau sydd eu hangen i ddod â phobl ynghyd, peri iddynt ddymuno byw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd lle mae ymdeimlad o le a llesiant, gan greu ffyniant i bawb. Mae hyn yn gymwys i siaradwyr Cymraeg a'u cymunedau – ac felly mae angen hyrwyddo a hwyluso hyn drwy benderfyniadau cynllunio'r awdurdod lleol.

Mae cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu at ymdeimlad o le, sy'n bwysig i iechyd, llesiant ac amwynder cymunedau lleol ac mae eu presenoldeb yn allweddol yn aml ar gyfer creu mannau hyfyw a chynaliadwy. Gallant gynnwys ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd ac addoldai.

Mae cymunedau Cymraeg cydlynus yn cael eu cynnal a'u creu drwy ddarparu mannau lle y gall pobl ryngweithio a chynnal gweithgareddau cymunedol, yn cynnwys mannau hamdden, chwarae, tyfu bwyd a chyfleoedd i ddod i gysylltiad â natur. Mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd yn bwysig.

Yn ogystal â hyn, mae PCC yn sôn am Leoedd Unigryw. Pan fydd y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed mewn lle, bydd hyn yn rhoi ymdeimlad o le unigryw. Pan yw'r Gymraeg yn egniol a bywiog, mae hyn hefyd yn ei dro yn sicrhau bod y gymuned yn egniol. Mae PCC yn nodi hefyd fod Lleoedd Strategol – ac mae'r Gymraeg yn rhan o'r disgrifiad hwn – yn flaenoriaeth genedlaethol bwysig.

“Bydd Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu yn golygu adeiladu ar y nodweddion unigryw ac arbennig sy'n rhoi 'teimlad' a hunaniaeth unigryw i leoedd. Meithrin a chynnal ymdeimlad o le drwy amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig a darparu ar gyfer a chefnogi defnyddiau a gweithgareddau sy'n darparu ar gyfer profiadau creadigol a diwylliannol” (PCC, 2018).

Lleoedd cynhyrchol a mentrus yw'r rhai sy'n hyrwyddo ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol drwy ddarparu cyflogaeth a datblygiad economaidd cynaliadwy â chysylltiadau da.

Bydd diwylliant bywiog a ffyniant y Gymraeg yn cael eu cefnogi drwy ddarparu swyddi a gweithgarwch economaidd y bydd angen eu cynllunio a'u rheoli'n strategol. Mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn cyfrannu mewn ffordd unigryw at hyfywedd cymunedau. Mae angen hyrwyddo ein harlwy i ymwelwyr hefyd er mwyn elwa o'r gefnogaeth i weithgareddau sy'n adlewyrchu ein diwylliant unigryw. Yn wir, mae grŵp y Gymraeg a'r economi yn Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymchwil sy'n dangos bod economi fywiog yn cynnal iaith a diwylliant bywiog, a hefyd fod iaith a diwylliant byw yn hybu'r economi.

Fel y mae PCC yn datgan, “Y system gynllunio yw'r brif fecanwaith ar gyfer darparu mannau cynaliadwy. Mae'n darparu mecanwaith hollbwysig lle mae cyfleoedd ar gyfer budd hirdymor a phenderfyniadau integredig yn dod ynghyd, sy'n caniatáu dod o hyd i atebion ataliol a rhagweithiol.”

Rhaid i bolisiâu, cynigion a phenderfyniadau cynllunio geisio hyrwyddo datblygu cynaliadwy a chynnal llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru.

⁷ Gweler cyfeiriadau yn y llyfryddiaeth, yn cynnwys Etzioni, Bernstein, Baker, Carter ac Aitchinson.

Crynodeb o'r Prif Ofynion o dan PCC, 2018

Rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau bod datblygu'n cael ei ddosbarthu'n eang a'i gyflawni'n raddol mewn ffordd sy'n rhoi sylw i allu'r ardal neu'r gymuned i gynnwys datblygu heb gael effaith anffafriol ar y defnydd o'r Gymraeg.

Dylid cynnwys datganiad mewn cynlluniau datblygu sy'n egluro sut mae awdurdodau cynllunio wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun a sut mae unrhyw bolisiau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisiau eraill y cynllun.

Gall penderfynwyr roi sylw i ystyriaethau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg i'r graddau eu bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio. Rhaid i bolisiau a phenderfyniadau beidio â chyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli meddiannaeth tai ar sail ieithyddol.

Os oes angen, gellir cynnal asesiadau o'r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr sydd heb eu dyrannu mewn cynllun datblygu sydd wedi'u cynnig mewn ardaloedd sy'n neilltuo o sensitif neu bwysig o ran y Gymraeg. Dylai unrhyw ardaloedd o'r fath gael eu diffinio'n glir yn y cynllun datblygu.

Yn Strategaeth a Ffeirir Conwy (2019) nodir:

"bydd y cysyniad o greu lleoedd yn elfen allweddol yn Strategaeth a Ffeirir Conwy ar gyfer cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwneud penderfyniadau yng Nghonwy wrth lunio'r cynllun a rheoli datblygu i greu lleoedd cynaliadwy."

Nodyn Cyngor Technegol 20

Mae 'Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg'⁸ (TAN 20) yn darparu canllawiau atodol i Ran 4 o Polisi Cynllunio Cymru. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried Nodiadau Cyngor Technegol a Chylchlythyrau wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ceisiadau cynllunio.

Diweddarwyd TAN 20 yn Hydref 2017. Mae Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20 "Cynllunio a'r Gymraeg" (Hydref 2013) wedi'i ganslo. Mae'r ddogfen atodol Nodyn Cyngor Technegol 20: Canllaw Ymarfer (Mehefin 2014) wedi'i chanslo hefyd.

Fel y mae TAN 20 (Hydref 2017) yn nodi:

"Gall y system gynllunio gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol trwy greu'r amodau fyddai'n caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu. Er enghraifft, mae creu'r amgylchiadau ar gyfer cyfleoedd gwaith sy'n talu'n dda ac ystod eang o dai o safon yn greiddiol i gynllunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy."

Mae prif egwyddorion y dull hwn o weithredu fel a ganlyn:

- Dull seiliedig ar gynllun – fel y bydd penderfyniadau cynllunio wedi'u seilio ar CDLI. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i system gynllunio sy'n seiliedig ar gynllun, lle mae penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac apeliadau yn cael eu gwneud yn unol â chynllun datblygu wedi ei fabwysiadu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol eraill yn gorbwyso'r cynllun. Mae'r Gymraeg yn un ystyriaeth berthnasol o'r fath.

⁸ Llywodraeth Cymru (2017) Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg <https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-20-cynllunio-ar-gymraeg>

- Seiliedig ar anghenion ac wedi'i wreiddio mewn datblygu cynaliadwy – mae'n amlinellu gweledigaeth o'r ffordd y disgwylir i leoedd newid o ran defnydd tir i ddarparu ar gyfer anghenion datblygu dros gyfnod y cynllun.
- Penderfyniadau cynllunio tryloyw, cyson a theg sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth a dull rhesymegol o weithredu
- Prosesau cynllunio effeithiol ac effeithlon
- Ystyried effeithiau cronol cynigion/penderfyniadau cynllunio ar y Gymraeg
- Cyfle i ystyried effeithiau'r cynllun ar y gymuned ehangach ac ardal ehangach y cynllun gyda'i gilydd

Mae TAN 20 (2017) yn datgan bod y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol sydd i gael sylw ochr yn ochr â materion perthnasol eraill. Gellir cael achlysuron pan fydd un budd o gynnig datblygu neu ddyraniad safle yn bwysicach nag eraill ac, mewn achosion o'r fath, dylid cyflwyno tystiolaeth gadarn i ategu'r penderfyniadau hyn, gan geisio sicrhau'r cyfraniadau mwyaf posibl yr un pryd at gyflawni'r holl nodau llesiant.

Mae dwy ran i TAN 20 – asesiadau o'r effeithiau ar y Gymraeg, a gofynion o ran arwyddion.

Asesiadau o effeithiau

Dylai'r Arfarniad Strategol (AS) gynnwys cofnod o ganlyniadau'r gwaith arfarnu a gyflawnwyd hyd hynny, yn cynnwys rhag-weld a gwerthuso effeithiau opsiynau'r CDLI ar amcanion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol.

Rhaid asesu'r effaith ar y Gymraeg yn rhan o'r AS.

Nid yw'n ofynnol gynnal asesiadau o effeithiau ar gyfer pob safle. Mae'n ofynnol gynnal asesiadau o effeithiau ar gyfer y canlynol:

- Penderfyniadau polisi pwysig (sydd wedi'u nodi yn Safonau'r Gymraeg)
- Datblygiad ar raddfa fawr – sy'n cael ei ddiffinio fel arfer fel datblygiad o 10 neu ragor o anheddau preswyl neu ddatblygiad o fwy na 1,000 metr sgwâr neu 1 hectar, ond gall Awdurdodau Cynllunio Lleol osod trothwyon priodol lleol yn y CDLI, yn seiliedig ar dystiolaeth (TAN 20, Hydref 2017).
- Ardaloedd ieithyddol sensitif
- Ardaloedd wedi'u diffinio

O dan TAN 20 mae gofyn i awdurdodau cynllunio bennu ardaloedd ieithyddol sensitif. Yr ardaloedd diffiniedig hyn yw'r rheini lle mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn fater neilltuol o sensitif neu bwysig. Rhaid dangos unrhyw ardaloedd o'r fath yn glir ar Fap Cynigion y CDLI a darparu'r sail resymegol iddynt a thystiolaeth i ddangos sut y pennwyd eu ffiniau.

Drwy ddiffinio ardaloedd o'r fath, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu dangos yn glir i gymunedau a datblygwyr ble mae angen ystyried y defnydd o'r Gymraeg. Bydd hyn hefyd yn dangos yr ardaloedd lle y gall mesurau i liniaru effeithiau datblygu ar y Gymraeg fod yn angenrheidiol.

Disgwylir i awdurdodau cynllunio bennu eu hardaloedd ieithyddol sensitif ac amlinellu eu dull o asesu effeithiau.

Mae gofyn i'r awdurdod weithredu ar sail cynllun ac felly cynnal asesiad lefel uchel o'r effeithiau ar y Gymraeg wrth baratoi CDLI. Felly rhaid cynnwys asesiad o effeithiau yn yr Arfarniad Strategol.

Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd union leoliad a graddfa'r datblygiadau ar hap-safleoedd unigol yn hysbys ar gam llunio'r cynllun, ond fe all awdurdodau lleol ystyried maint eu cyfraniad ac a fydd lefel y datblygiadau disgwyliedig ar hap-safleoedd yn gallu effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg.

Bydd yr asesiad lefel uchel o effeithiau ar gam llunio'r CDLI yn ceisio canfod pa waith ychwanegol fydd ei angen i asesu effeithiau, yn cynnwys unrhyw asesiadau o effeithiau ar y cam ymgeisio ar gyfer datblygiadau ar raddfa fawr ar hap-safleoedd.

Yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn, cyflwynir argymhellion wedi'u seilio ar dystiolaeth a dadansoddiad o'r ardaloedd hyn.

Ffactorau i'w hystyried

Mae'r canllawiau yn TAN 20 hefyd yn cynnwys rhestr ddangosol o ffactorau y gellid eu cynnwys mewn asesiad o effeithiau, sef:

Tai

- graddfa a lleoliad twf
- math, deiliadaeth a maint y cartrefi newydd arfaethedig
- polisïau a thargedau tai fforddiadwy
- polisi fesul cyfnod
- datblygiadau tai ar hap-safleoedd⁹.

Tir cyflogaeth

- graddfa a lleoliad y ddarpariaeth
- darpariaeth ar gyfer busnesau lleol, busnesau bach a chanolig a chynlluniau mewnfuddsoddi ar raddfa fawr.

Cyfleusterau cymunedol a seilwaith addysg

- lleoliad y cyfleusterau arfaethedig a'u hagosrwydd i ardaloedd preswyl

Rhwymedigaethau cynllunio

- y defnydd priodol o gytundebau a.106 a/neu restr taliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer darparu seilwaith i gefnogi'r Gymraeg.

Arwyddion

- hybu'r defnydd o arwyddion Cymraeg sy'n gallu arwain at ddatblygu'r Gymraeg yn nodwedd weledol mewn ardal.

⁹ Tybir mai hap-safleoedd mawr yw'r rheini ar gyfer 10+ o anheddau nad oeddent wedi'u dyrannu i'w datblygu, ond lle'r oedd egwyddor datblygu preswyl yn cael ei hystyried yn dderbyniol, beth bynnag am y sefyllfa o ran y cyflenwad o dir ar gyfer tai (PC07 – Cyflenwad Tir ar gyfer Tai).

Nid yw'r rhestr hon wedi'i bwriadu i fod yn gyflawn neu'n derfynol. Mae'n bosibl y bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn credu y gall polisiau eraill effeithio ar y Gymraeg.

Mesurau lliniaru a champau gweithredu i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol

Mae TAN 20 yn datgan y dylid pennu mesurau i liniaru effeithiau niweidiol a champau i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol ar gam llunio'r cynllun datblygu. Drwy wneud hyn ar y cam hwn, bydd y datblygwr yn ymwybodol o oblygiadau'r mesurau hynny wrth baratoi cais cynllunio. Dylai hyn fod o gymorth i ymgysylltu â'r gymuned hefyd gan y bydd cynigion mwy cadarn ac adeiladol ar gam llunio'r cynllun yn lleihau gwrthdaro posibl ar gam y cais cynllunio.

Dylid amlinellu mesurau lliniaru yn y Cynllun Adneuo, a gellir cynnwys materion manwl hefyd mewn Canllawiau Cynllunio Atodol. Gallai hyn gynnwys briffio ar gyfer datblygu ar safleoedd penodol.

Er mwyn sicrhau bod mesurau lliniaru yn cael eu cymryd, mae'n bosibl y bydd angen defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol neu gytundebau adran 106. Gellir cynnwys darpariaeth o seilwaith i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhestr taliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol yn unol â'r holl ddeddfwriaeth gymwysadwy, yn cynnwys darpariaethau Deddf Cynllunio 2008 a Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010.

Mae TAN 20 yn cynnig awgrymiadau am ddulliau strategol a all hybu'r iaith, fel y canlynol:

- camau pendant i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth leol;
- cynllunio maint a dosbarthiad gofodol y datblygiadau a'r seilwaith newydd, yn enwedig lle byddai hyn yn helpu i hybu cynaliadwyedd y gymuned;
- cyflawni datblygiadau tai a chyflogaeth strategol yn raddol;
- pennu ardaloedd ieithyddol sensitif neu bwysig;

Mae rhagor o awgrymiadau isod am fesurau lliniaru a hyrwyddo y gallai Conwy eu hystyried:

- ✓ Addysg a hyfforddiant i siaradwyr Cymraeg i'w galluogi i gael swyddi yn y dyfodol
- ✓ Ffrydio mewn ysgolion i sicrhau bod darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg ar gael
- ✓ Darparu cludiant i ysgolion cyfrwng Saesneg y tu allan i'r dalgylch i liniaru effeithiau sy'n newid cyfrwng iaith ysgol leol yn y dalgylch
- ✓ Defnyddio grantiau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a grantiau a mentrau eraill i sicrhau na fydd effaith niweidiol ar y cyfrwng iaith
- ✓ Darparu addysg a hyfforddiant Cymraeg mewn cymunedau – ymwybyddiaeth, taflenni gwybodaeth, sesiynau blasu, dysgu Cymraeg
- ✓ Mentrau a/neu weithgareddau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg
- ✓ Cyllid/ grantiau/ nawdd e.e. ar gyfer trafndiaeth leol, mentrau lleol, gweithgareddau, gwasanaethau yn Gymraeg, ar gyfer dysgu
- ✓ Seilwaith – cefnogi a/neu dargedu cyfathrebiadau mewn ardaloedd ieithyddol sensitif i hybu a hyrwyddo cymunedau bywiog a chynaliadwy fel lleoedd hyfyw i fyw a gweithio
- ✓ Cymorth ar gyfer teithio cynaliadwy i'r gwaith o ardaloedd ieithyddol sensitif fel y bydd pobl yn gallu aros yn y gymuned i fyw a chael mwy o ddewisiadau o ran teithio cynaliadwy, gan wrthweithio allfudo o ganlyniad i'r angen i deithio i'r gwaith a/neu opsiynau trafndiaeth cyfyngedig.
- ✓ Bod yn hyblyg wrth ddelio ag arallgyfeirio mewn mentrau a busnesau mewn ardaloedd gwledig
- ✓ Cynlluniau tai fforddiadwy a pherchentyaeth

Cyfraniadau:

Mae'r canlynol yn bedwar math o gyfraniad – rhai ariannol ac eraill:

1. Cyfraniadau mewn Nwyddau neu Wasanaethau – Y datblygwr yn cyflawni'r gwaith gofynnol yn uniongyrchol.
2. Cyfraniadau Ar y Safle / Oddi ar y Safle – Y datblygwr yn cyfrannu'n ariannol at ddarparu mesurau a fyddai'n lliniaru effeithiau niweidiol y datblygiad.
3. Cyfraniadau Cyfun – Gall y Cyngor geisio cyfuno cyfraniadau gan un neu ragor o ddatblygwyr ledled y Fwrdeistref Sirol, er mwyn delio â'r effeithiau ehangach ar draws datblygiadau.
4. Cyfraniad drwy ardoll o dan A106 yn unol â TAN 20 at dai fforddiadwy.

Arwyddion

Mae TAN 20 yn cynnwys canllawiau hefyd ar ddefnyddio'r Gymraeg ar arwyddion. Gall hyn hybu'r ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth ymysg siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg a helpu i hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd. Mae'r defnydd o'r Gymraeg ar arwyddion hefyd yn rhoi ymdeimlad o le a gall wella'r arlwy i ymwelwyr o ran y gyrchfan a thwristiaeth ddiwylliannol gan wneud Conwy yn lle unigryw ac arbennig.

Felly, mae TAN 20 yn datgan "Gall arwyddion gael effaith weledol drom ar gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol. Maent hefyd yn un ffordd o hybu diwylliant unigryw Cymru, sy'n arwyddocaol o safbwynt hunaniaeth gwahanol gymunedau a'r diwydiant twristiaeth. Gall polisiâu CDLlau ar arwyddion a hysbysebion sy'n destun rheolau cynllunio hybu darparu arwyddion dwyieithog."

TAN 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, 2010¹⁰

Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn datgan y dylai awdurdodau cynllunio gefnogi arallgyfeirio yn yr economi wledig fel modd i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth lleol, cynyddu ffyniant economaidd lleol a lleihau'r angen i deithio i gael cyflogaeth. Gan fod nifer o'r cynghorau cymuned a wardiau ledled Conwy lle mae mwy na chwarter neu hanner y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn rhai sydd mewn ardaloedd gwledig, mae TAN 6 yn ddefnyddio a pherthnasol iawn.

Tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig

Mae TAN 6 yn nodi y gall awdurdodau cynllunio ddymuno rhoi blaenoriaeth mewn ardaloedd gwledig i dai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion lleol, drwy bennu'r pentrefi llai a chlystyrau hynny lle bydd datblygiadau tai yn y dyfodol yn gyfyngedig i'r categori hwn. Dylid darparu ar gyfer yr angen am dai'r farchnad a thai fforddiadwy cyffredinol mewn mannau eraill yn ardal yr awdurdod cynllunio.

Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio'r holl ddulliau polisi sydd ar gael, mewn ffordd arloesol, i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn unol â'r diffiniad yn TAN2. Mewn ardaloedd gwledig llai, dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu dull hyblyg o gyflawni hyn. Mewn aneddiadau llai a chlystyrau, dylai awdurdodau cynllunio ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned leol a swyddogion galluogi tai gwledig i ddod â safleoedd ymlaen ar gyfer tai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion lleol. Yr amcan fydd datblygu gweledigaeth glir o'r ffordd i gwrdd â'r angen am dai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd y gymuned gyfan.

¹⁰ TAN 6, Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Gorffennaf 2010
<https://gweddill.gov.wales/docs/desh/policy/100722tan6cy.pdf>

Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod y tai fforddiadwy yn darparu ar gyfer anghenion lleol gwirioneddol, y byddant yn fforddiadwy am byth, eu bod wedi'u dylunio'n dda a'u bod ar raddfa briodol. Dylid dewis safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy yn rhan o broses y cynllun datblygu neu ddod â nhw ymlaen ar gyfer tai fforddiadwy.

Gwasanaethau mewn cymunedau gwledig

Er mwyn sicrhau bod cymunedau'n gynaliadwy yn y tymor hir, mae angen i breswylwyr gwledig gael mynediad rhesymol at wasanaethau lleol hanfodol. Wrth baratoi cynlluniau datblygu, dylai awdurdodau cynllunio gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael ledled yr ardal. Bydd hyn yn eu helpu i bennu'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygu sydd wedi'i fwriadu i gwrdd ag anghenion cyffredinol a lleoliadau lle dylid gweithredu'n fwy rhagweithiol i gwrdd ag anghenion am wasanaethau cymunedol hanfodol.

Cynllunio a'r Gymraeg: y Ffordd Ymlaen (2005)¹¹

Er bod y Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol er 1988, "mae Awdurdodau Cynllunio wedi'i chael yn anodd cymhwyso'r polisi a'r canllawiau". Mewn ymateb i hyn, roedd 16 o awdurdodau cynllunio lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu astudiaeth gan Ysgol Gynllunio Bartlett, University College London (UCL) o dan arweiniad y Dr Mark Tewdwr-Jones, i lunio pecyn cymorth ar y Gymraeg mewn cynllunio.

Roedd argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw i'w strategaethau cymunedol ac ymgysylltu â'u cymunedau drwy Gynlluniau Cynnwys Cymunedau y CDLI wrth baratoi polisiâu ieithyddol ar ddefnydd tir.
- Ar gyfer y proffilio cychwynnol, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ddechrau diffinio Ardaloedd Ieithyddol Sensitif yn eu hardaloedd ar sail trothwy lle mae 25% neu ragor o ardal y Cyngor Cymuned yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mater i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fydd penderfynu dalgylch yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif diffiniedig drwy broses y cynllun datblygu a gallai gynnwys aneddiadau unigol y tu allan i'r ardal a ddiffinnir ar sail y trothwy a awgrymwyd.

Mae'r adroddiad yn nodi:

'y gall ac y dylai'r system cynllunio defnydd tir roi sylw i anghenion a buddiannau'r Gymraeg ac, wrth wneud hynny, cyfrannu at ei lles.'

Roedd yr adroddiad yn bapur trafod a oedd yn ymdrin yn benodol â pha bryd i asesu'r Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol – h.y. pwyso a mesur y manteision ac anfanteision i'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill. Gallai'r penderfyniad cynllunio fod yn un sy'n gwrthod y cynnig neu'n derbyn y cynnig ar yr amod bod mesurau lliniaru wedi'u cynnwys.

Bydd prosesau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer CDLlau yn gwneud y mantoli rhwng yr effaith ar yr iaith ac ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eraill yn dryloyw.

Ar gyfer yr holl ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymuned, mae'r adroddiad yn argymhell cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Y ffordd i ddiffinio cymunedau o'r fath, a elwir hefyd yn ardaloedd ieithyddol sensitif, yw gosod trothwy lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn 25% neu'n fwy.

¹¹ Cynllunio a'r Gymraeg: y Ffordd Ymlaen (2005)

[file:///C:/Users/Rachel/Documents/Rachel/RHD%20Consultancy/Tendrau/Conwy%20-%20cynllunio/Conwy%20-%20planning%20-%20the%20way%20ahead and the welsh language document.pdf](file:///C:/Users/Rachel/Documents/Rachel/RHD%20Consultancy/Tendrau/Conwy%20-%20cynllunio/Conwy%20-%20planning%20-%20the%20way%20ahead%20and%20the%20welsh%20language%20document.pdf)

Rhan 3: Crynodeb o'r Argymhellion ar gyfer Polisi Cynllunio ar y Gymraeg

Cyflwyniad

Mae Rhan 3 o'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar ganfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd a'r dystiolaeth a gasglwyd i ddod i gasgliadau ynghylch y camau nesaf i'w cymryd wrth adolygu polisi cynllunio awdurdod Conwy ar y Gymraeg.

Yn fyr, mae'r adroddiad yn cyflwyno pedwar argymhelliad:

1. Diffinio Ardaloedd Ieithyddol Sensitif yn unol â TAN 20
2. Diweddaru polisi cynllunio ar y Gymraeg
3. Lluo pecyn cymorth ar gyfer asesu effeithiau ar y Gymraeg
4. Adolygu'r Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned yn unol â TAN 20 a Safonau'r Gymraeg

Argymhelliad 1: Diffinio Ardaloedd Ieithyddol Sensitif

Yn unol â TAN 20, mae gofyn i awdurdod cynllunio Conwy ddiffinio ei ardaloedd ieithyddol sensitif. Yn unol â Cynllunio a'r Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005), y trothwy sydd wedi'i argymhell yw poblogaeth lle mae 25% neu fwy yn gallu siarad Cymraeg.

Drwy ymchwilio i ddata Cyfrifiad 2011, rydym yn gwybod bod 27.4% o boblogaeth Conwy yn gallu siarad Cymraeg ond bod y nifer a'r ganran wedi gostwng dros amser.

Mae strategaeth iaith Gymraeg Conwy wedi gosod targed ar gyfer cynnydd o 2% yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol yn y 5 mlynedd nesaf. Felly, wrth osod y trothwy ar 25%, mae posibilrwydd y bydd y polisi cynllunio yn cyfrannu at gyrraedd y targed cyffredinol o gynnydd o 2% yn y ganradd.

Dadansoddwyd ystadegau ar gyfer bwrdeistref sirol Conwy i gael gwybod y canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg ar sail wardiau etholiadol ac ardaloedd cyngor cymuned ac mae'r canlyniadau wedi'u dangos yn Nhabl 3. Mae'r data yn dangos bod 21 o'r 28 o wardiau etholiadol yng Nghonwy lle mae 25% neu ragor yn gallu siarad Cymraeg, sef y trothwy sydd wedi'i argymhell yn adroddiad Cynllunio a'r Gymraeg. Mae 12 o wardiau ar ben hynny lle mae'r ganran yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%, a wardiau eraill sy'n agos iawn iddynt lle mae ychydig llai na 19% yn gallu siarad Cymraeg, fel eu bod o arwyddocâd ystadegol yng nghyd-destun polisi ar y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, mae'r tabl yn dangos bod cyfran fawr o'r boblogaeth o siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy mewn bröydd Cymraeg, lle mae mwy na 50-60% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Yn Uwchaled y mae'r ffigur uchaf, lle mae 70.8% yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl 3: Canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg ar sail wardiau etholiadol, Conwy

Ward Etholiadol Conwy	% yn gallu siarad Cymraeg
W05000149: Uwchaled	70.8
W05000132: Llangernyw	65.8
W05000128: Gower	63.5
W05000134: Llansannan	63.0
W05000148: Uwch Conwy	60.7
W05000121: Crwst	59.6

W05000123: Eglwys-bach	54.3
W05000113: Betws-y-coed	50.3
W05000139: Pandy	48.4
W05000146: Trefriw	45.6
W05000114: Betws yn Rhos	45.4
W05000115: Bryn	45.0
W05000116: Caerhun	41.9
W05000133: Llansanffraid	35.8
W05000140: Pant-yr-afon/Penmaenan	34.1
W05000117: Capelulo	33.3
W05000915: Marl	29.8
W05000119: Conwy	28.7
W05000917: Pensarn	28.4
W05000124: Eirias	23.5
W05000918: Tudno	23.4
W05000916: Penrhyn	22.9
W05000914: Deganwy	22.8
W05000125: Gele	22.7
W05000137: Mochdre	22.5
W05000135: Llysfaen	21.1
W05000143: Pentre Mawr	21.1
W05000118: Colwyn	20.7
W05000130: Llanddulas	20.5
W05000126: Glyn	19.7
W05000913: Craig-y-don	18.7
W05000131: Llandrillo yn Rhos	18.4
W05000138: Mostyn	18.4
W05000144: Rhiw	16.7
W05000127: Gogarth	16.0
W05000112: Abergele Pensarn	11.6
W05000129: Bae Cinmel	11.5
W05000145: Towyn	10.8

Tabl 4: Canrannau mewn ardaloedd cyngor cymuned lle mae 25% neu ragor yn gallu siarad Cymraeg, Cyfrifiad 2011.

Ardal Cyngor Cymuned, 25% neu ragor yn gallu siarad Cymraeg	Y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg, 2011
Betws yn Rhos	46.4
Betws-y-coed*	46.5
Bro Garmon	58.6
Bro Machno*	57.0
Caerhun	44.6
Capel Curig*	57.1
Cerrigydrudion	77.2
Conwy	27.3
Dolgarrog	46.8
Dolwyddelan*	51.9

Eglwys-bach	49.0
Henryd	37.1
Llanddoded a Maenan	62.4
Llanfairfechan	46.7
Llanfairtalhaearn	44.5
Llanfihangel Glyn Myfyr	69.6
Llangernyw	64.4
Llangwm	61.5
Llanefydd	60.9
Llanrwst	61.0
Llansanffraid Glan Conwy	35.8
Llansannan	64.0
Penmaen-mawr	33.8
Pentrefoelas	69.9
Trefriw	44.9
Ysbyty Ifan*	79.1

* o fewn Parc Cenedlaethol Eryri

Ffynhonnell: Bwletinau Ystadegol Llywodraeth Cymru – Gallu o ran y Gymraeg yn ôl ward etholiadol yng Nghonwy, Cyfrifiad 2011.

Yn ogystal â'r rhain, mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19% yn yr ardaloedd cyngor cymuned a ganlyn:

Tabl 5: Canrannau mewn ardaloedd cyngor cymuned lle mae 19% - 24% yn gallu siarad Cymraeg, Cyfrifiad 2011.

Ardal Cyngor Cymuned, 19% - 24% yn gallu siarad Cymraeg	Y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg, 2011
Mochdre	22.5%
Hen Golwyn	21.9%
Llysfaen	21.1%
Llanddulas a Rhyd-y-foel	20.5%
Llandudno	20.3%
Abergele	19.6%

Ar sail data'r Cyfrifiad (2011), a'r ardaloedd cyngor cymuned o fewn cwmpas CDLI Conwy, mae Tabl 6 yn rhestru'r ardaloedd/safleoedd ieithyddol sensitif a nodwyd yn unol â TAN 20 ac yn unol ag arferion da, h.y. bod asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn cael ei gynnal lle mae 25% neu ragor o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg:

Tabl 6: Safleoedd ieithyddol sensitif Conwy

Cyngor Cymuned	Y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg, Cyfrifiad 2011
Cerrigydrudion	77.20%

Pentrefoelas	69.90%
Llanfihangel Glyn Myfyr	69.60%
Llangernyw	64.40%
Llansannan	64.00%
Llanddoged a Maenan	62.40%
Llangwm	61.50%
Llanrwst	61.00%
Llanefydd	60.90%
Bro Garmon	58.60%
Eglwys-bach	49.00%
Dolgarrog	46.80%
Llanfairfechan	46.70%
Betws yn Rhos	46.40%
Trefriw	44.90%
Caerhun	44.60%
Llanfairtalhaearn	44.50%
Henryd	37.10%
Llansanffraid Glan Conwy	35.80%
Penmaen-mawr	33.80%
Conwy	27.30%

Yn ogystal â'r rhain, mae'r canlynol o bwysigrwydd strategol gan fod 19% neu ragor yn siarad Cymraeg yn yr ardal (er nad yw'r ganran yn uwch na'r trothwy o 25%).

Tabl 7: Safleoedd ychwanegol yng Nghonwy sydd o bwysigrwydd strategol o ran y Gymraeg

Abergele
Llanddulas a Rhyd-y-foel
Llandudno
Llysfaen
Mochdre
Hen Golwyn

Wrth ddefnyddio'r data uchod, mae'n bwysig cofio bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ym mhob ardal – ym mhob ardal cyngor cymuned a phob ward etholiadol. Nid yw'r ffaith bod y safleoedd uchod wedi'u dynodi yn golygu na ellir ystyried safleoedd eraill mewn gweithgareddau cynllunio.

Yn ogystal â hyn, mae'n bwysig iawn cofio mai canrannau sydd wedi'u defnyddio i ddibenion y ddogfen hon a bod niferoedd yr un mor bwysig. Gall nifer y siaradwyr Cymraeg fod yn uwch mewn ardaloedd lle mae'r

canrannau'n is. Dwysedd poblogaeth yr ardal sy'n cyfrif am hyn. Felly mae'n bwysig nodi ardaloedd cyngor cymuned yn ôl y niferoedd uchaf ac isaf cyffredinol. Mae'r rhain wedi'u dangos yn Nhabl 8 isod.

Tabl 8: Ardaloedd Cyngor Cymuned Conwy yn ôl nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, o'r nifer uchaf i'r nifer isaf, Cyfrifiad 2011

Cyngor Cymuned	Y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg	% sy'n gallu siarad Cymraeg
Llandudno	4,079	20.3%
Conwy	3,901	27.3%
Abergele	2,014	19.6%
Llanrwst	1,943	61.0%
Bae Colwyn	1,897	17.9%
Hen Golwyn	1,719	21.9%
Llanfairfechan	1,646	46.7%
Penmaen-mawr	1,425	33.8%
Llandrillo yn Rhos	1,366	18.4%
Towyn a Bae Cinmel	927	11.3%
Llansannan	831	64.0%
Llansanffraid Glan Conwy	765	35.8%
Llangernyw	672	64.4%
Caerhun	563	44.6%
Llysfaen	552	21.1%
Cerrigydrudion	549	77.2%
Betws yn Rhos	473	46.4%
Llanfairtalhaearn	465	44.5%
Eglwys-bach	448	49.0%
Mochdre	416	22.5%
Bro Garmon	372	58.6%
Llanddoded a Maenan	371	62.4%
Llanefydd	348	60.9%
Trefriw	342	44.9%
Bro Machno	340	57.0%
Llanddulas a Rhyd-y-foel	308	20.5%
Llangwm	284	61.5%
Henryd	261	37.1%
Betws-y-coed	252	46.5%
Pentrefoelas	241	69.9%
Dolwyddelan	238	51.9%
Dolgarrog	200	46.8%
Ysbyty Ifan	151	79.1%
Llanfihangel Glyn Myfyr	128	69.6%
Capel Curig	113	57.1%

Yn ogystal â hyn, i ddibenion cynllunio'r CDLI, mae'n bwysig cofio enghreifftiau fel y rhain yn Nhabl 9 lle mae'r ganran ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19% ond lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn fwy nag mewn rhai o'r ardaloedd ieithyddol sensitif sydd wedi'u rhestru uchod.

Tabl 9: Ardaloedd cyngor cymuned lle mae'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg yn debyg neu'n uwch nag mewn ardaloedd yn Nhabl 7 lle mae canran uwch.

Llandrillo yn Rhos	1,366	18.4%
Bae Colwyn	1,897	17.9%

Argymhelliad 2: Y polisi cynllunio ar y Gymraeg

Mae angen diweddaru polisi CTH5 ar y Gymraeg yn rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd erbyn diwedd 2019- dechrau 2020. Rydym yn argymhell y newidiadau canlynol:

- i. Ei ddiweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio – TAN 20 a Creu Lleoedd a hefyd elfennau yn TAN 6, yn cynnwys y defnydd o gytundebau a106
- ii. Adlewyrchu diweddariadau diweddar mewn polisi a deddfwriaeth genedlaethol ar y Gymraeg – Cymraeg 2050, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Safonau'r Gymraeg, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- iii. Cynnwys Strategaeth Iaith Gymraeg a Safonau'r Gymraeg Conwy
- iv. Adlewyrchu adroddiad Cynllunio a'r Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005)
- v. Adolygu'r polisi i bennu un dull o asesu effaith yn hytrach na datganiad effaith dau gam ac asesiad llawn yn ôl y geiriad presennol
- vi. Diffinio ardaloedd ieithyddol sensitif (yn unol â TAN 20)
- vii. Cynnwys rhestr ddangosol o ddulliau lliniaru a gweithgareddau hyrwyddo
- viii. Cynnwys gofynion ar gyfer datblygwyr er mwyn iddynt allu gweld yn gynnar beth fydd y gofynion wrth flaengynllunio
- ix. Ymgysylltu ac ymgynghori – cynnwys y gofynion yn TAN 20 a Safonau'r Gymraeg a'i gysylltu hefyd â'r Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned
- x. Cynnwys sylfaen dystiolaeth a data llinell sylfaen

Argymhelliad 3: Llunio pecyn offer i helpu i asesu'r effaith ar y Gymraeg

Wrth baratoi at yr asesiad y bydd angen ei gyflawni o effaith y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, rydym yn argymhell datblygu pecyn offer Asesu'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer hyn. Dylai pecyn offer o'r fath gael ei seilio ar yr arferion gorau a gwersi a ddysgwyd, yn enwedig ers cyhoeddi'r TAN 20 diwygiedig a dylai hefyd wneud defnydd o'r offeryn a gomisiynwyd yn Cynllunio a'r Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005). Bydd offeryn o'r fath yn helpu i sicrhau bod asesiadau o effaith yn gyson dros amser ac ar draws gwahanol ddyraniadau cynllunio. Bydd hefyd yn ganllaw defnyddiol i ddatblygwyr sy'n paratoi cynlluniau manwl a mesurau lliniaru.

Dyma'r argymhellion ar gyfer llunio'r pecyn offer:

- Cynnwys y cwestiynau a oedd yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer CDLI Conwy a gafodd ei ddiweddaru yn 2011
- Defnyddio'r cwestiynau a'r pecyn offer yn Cynllunio a'r Gymraeg: y ffordd ymlaen

- Ymchwilio i'r gwersi a ddysgwyd a'r arferion gorau, yn cynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gwblhawyd gan awdurdodau Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri
- Cynnwys rhestr o ffynonellau ystadegol a data eraill yn y sylfaen dystiolaeth a fydd yn ddefnyddiol ac yn sicrhau bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i seilio ar dystiolaeth yn unol â gofynion TAN 20.

Argymhelliad 4: Diwygio'r Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned yn unol â TAN 20 a Safonau'r Gymraeg

Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, rhaid i'r awdurdod ddiweddarau ei Gynllun Ymgysylltu â'r Gymuned yn unol â safonau 88-90. Yn ogystal â darparu dogfennau'r Strategaeth a Ffefrir a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn Gymraeg ar gyfer darparu adborth yn Gymraeg, rhaid i'r Gymraeg fod yn rhan o gynnwys y ddogfen ymgynghori. Yn benodol, rhaid i'r awdurdod ofyn am farn am yr effeithiau ar y Gymraeg – rhai cadarnhaol a negyddol – a chyfleoedd i'w hyrwyddo a'i chefnogi.

Atodiad 1: Rhestr Termau a Byrfoddau

AoG	Arfarniad o Gynaliadwyedd
AS	Arfarniad Strategol
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol
CDLIN	Cynllun Datblygu Lleol Newydd
PCC	Polisi Cynllunio Cymru
TAN	Nodyn Cyngor Technegol

Dyraniadau: tir a gynigir i'w ddatblygu yn y CDLIN

Hap-safleoedd: Safleoedd sydd heb eu dyrannu'n benodol i'w datblygu ond a fydd ar gael oherwydd amgylchiadau annisgwyl yn ystod cyfnod y cynllun.

Prif Bentrei Haen 1 – Dwgyfylchi, Glan Conwy, Llanddulas.

Prif Bentrei Haen 2 – Betws yn Rhos, Cerrigydrudion, Dolgarrog, Eglwys-bach, Llanfairtalhaearn, Llangernyw, Llansannan, Llysfaen, Tal-y-bont / Castell a Threfriw.

Pentrei Llai – Bryn Pydew, Glanwydden, y Groes, Henryd, Llanbedr-y-Cennin, Llanellian, Llanddoged, Llangwm, Llanefydd, Pentrefelin, Pentrefoelas, Rhyd-y-foel, Llan San Siôr, Tal-y-cafn a Thyn-y-groes.

Pentrefannau – Bodtegwel, Bryn-y-maen, Brymbo, Brynrhydyrarian, Bylchau, Capelulo, Cefn Berain, Cefn Brith, Dinmael, Glasfryn, Groesffordd, Gwytherin, Hendre, Llanfihangel Glyn Myfyr, Maerdy, Melin-y-coed, Nebo, Pandy Tudur, Pentre Llyn Cymer, Pentre Isa, Pentre Tafarn y Fedw, Rhydlydan, Tan-y-fron.

Cefn Gwlad Agored – gweddill ardal wledig y Cynllun.

Atodiad 2: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Safonau'r Gymraeg – Llunio Polisi

88	Wrth lunio polisi newydd, neu adolygu neu ddiwygio polisi presennol, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os bydd rhai (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) a gaiff y penderfyniad polisi ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.
89	Wrth lunio polisi newydd, neu adolygu neu ddiwygio polisi presennol, rhaid i chi ystyried sut y gellir geirio'r polisi (neu sut y gellir newid polisi presennol) fel y bydd y penderfyniad polisi yn cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol mwy, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.
90	Wrth lunio polisi newydd, neu adolygu neu ddiwygio polisi presennol, rhaid i chi ystyried sut y gellir geirio'r polisi (neu sut y gellir newid polisi presennol) fel na fydd y penderfyniad polisi yn cael effeithiau niweidiol, neu fel y bydd yn cael effeithiau niweidiol llai, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.
91	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen ystyried, a cheisio barn am, yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) y byddai'r penderfyniad polisi dan sylw yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.
92	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen ystyried, a cheisio barn am, sut y gellir geirio neu ddiwygio'r polisi dan sylw fel y bydd yn cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol mwy, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.
93	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen ystyried, a cheisio barn am, sut y gellir geirio neu ddiwygio'r polisi dan sylw fel na fydd yn cael effeithiau niweidiol, neu fel y bydd yn cael effeithiau niweidiol llai, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.

Atodiad 3: Llyfryddiaeth

- Aitchison, J. a Carter, H. (1998) 'The Regeneration of the Welsh Language: An analysis' An Annual Review of Economic and Social Research Contemporary Wales Vol 11, tt 167-185
- Archifau Cenedlaethol – legislation.gov.uk – Deddf yr Amgylchedd 2016 - <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/3/contents>
- Archifau Cenedlaethol – legislation.gov.uk – Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 - <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted>
- Baker, C, Sylvia Prys Jones, et al. (1998) The Encyclopaedia of bilingualism and bilingual education. Multilingual Matters.
- Bernstein, B. (1973) Social Class, Language and Socialisation. No. 28 yn Current Trends in Linguistics Vol 12 tt 472-486
- Cardiff University (2005) Capitalising on languages and culture: scoping study. Language-culture-economy
- Carter, H. ac Aitchinson, J. W. (1997) 'The language patterns of Wales' yn Griffiths, M. (1997) (Ed) The Welsh Language in Education: A volume of essays edited by Merfyn Griffiths Volume 2 WJEC/ CBAC: National Language Unit of Wales tt 15- 25
- Coupland, N., Williams, A. a Garrett, P. (1994) 'The Social Meanings of Welsh English: Teachers' stereotyped judgements' Journal of Multilingual and Multicultural Development 15 (6) tt471-489
- Coupland, N., Williams, A. a Garrett, A. (1998) "Welshness' and 'Englishness' as Attitudinal Dimensions of English Language Varieties in Wales" yn Preston, D. (Ed) Handbook of Perceptual Dialectology Sage: Newbury Park.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Awst 2018), Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai http://spp.conwy.gov.uk/upload/public/attachments/692/Conwy_JHLAS_2018_Report.pdf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cynllun Datblygu Lleol ac asesiad o'r effaith ar y Gymraeg.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cynllun Llesiant
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, (Gorffennaf 2019) Strategaeth a Ffefrir Conwy 2018-33
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Gwasanaethau Addysg Conwy, (2017) Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Mai 2019), PC07: Cyflenwad Tir ar gyfer Tai – Asesiad ar gyfer y CDLIN
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Safonau'r Gymraeg Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Strategaeth Iaith Gymraeg Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Uned Ymchwil (Awst 2013) Y Gymraeg yng Nghonwy, Bwletin Ymchwil
- Cynllunio a'r Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005)
file:///C:/Users/Rachel/Documents/Rachel/RHD%20Consultancy/Tendrau/Conwy%20-%20cynllunio/Conwy%20-%20planning%20-%20the%20way%20ahead_and_the_welsh_language_document.pdf
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 - <https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/WFGAct-Welsh.pdf>

Etzioni, A. (1996) 'The Responsive Community: A Communitarian Perspective' 1995 Presidential Address
Sociology 61 (1) February, tt1-11

Heath, R (2007) Language, Culture and Markets in the education market in Wales. PhD, Cardiff University.

Llywodraeth Cymru, Bwletin Stats Cymru – Y Gymraeg, Cyfrifiad 2011

Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>

Llywodraeth Cymru (2017) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan20-cymraeg.pdf>

Llywodraeth Cymru, (2010) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig
Cynaliadwy, Gorffennaf 2010 <https://gweddill.gov.wales/docs/desh/policy/100722tan6cy.pdf>
Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 (2018) <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

Y Goron, Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) Adran 62

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Rhagfyr 2012) Statistical Bulletin - Census 2011: First Findings on the Welsh language